



Ein Cyf/Our Ref:

Rhif Ffôn/Telephone: 01554 779 510

Dyddiad/Date: Gorffennaf 2011

E-bost/E-mail:

talkinghealth@wales.nhs.uk
siaradiechyd@wales.nhs.uk

Annwyl gydweithiwr

Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn sefydlu cynllun cynnwys ac ymgysylltu newydd o'r enw **Siarad Iechyd/Talking Health** er mwyn rhoi cyfle i bobl leol ddweud eu dweud ynghylch sut mae gwasanaethau iechyd lleol yn cael eu cynllunio, eu datblygu a'u darparu. Mae'n bwysig ein bod ni'n gwrando ar safbwyntiau, barn a syniadau pobl sy'n byw yn ein cymunedau, ac yn gweithredu arnynt, a hynny er mwyn gwella ar yr hyn rydym ni'n ei gyflawni.

Yn amgaeedig mae taflen sy'n amlinellu pwrpas cynllun Siarad Iechyd/Talking Health. Mae pob taflen hefyd yn cynnwys ffurflen gais y gellir ei ddychwelyd yn rhad ac am ddim at FREEPOST HYWEL DDA HEALTH BOARD.

Mae pobl yn gallu ymuno â Siarad Iechyd/Talking Health fel unigolion neu fel cynrychiolydd o sefydliad. Byddwn yn ddiolchgar iawn pe baech yn gallu rhannu gwybodaeth ynghylch Siarad Iechyd/Talking Health gyda phobl eraill o fewn eich sefydliad.

Bydd aelodau yn derbyn gwybodaeth trwy lythyr newyddion yn rheolaidd ynghyd â diweddariadau am eu gwasanaethau iechyd, a byddant yn medru cymryd rhan mewn trafodaethau parhaus am faterion iechyd trwy ddigwyddiadau, panel darllenwyr, grwpiau diddordeb, holiaduron a gwirfoddoli yn unol â'u maes diddordeb.

Mae nifer o gynigion arbennig a chymhellion y bydd aelodau yn gymwys i'w derbyn a fydd yn eu helpu i wella iechyd eu hunain.

Os hoffech dderbyn rhagor o gopiau o'r daflen amgaeedig, a fyddoch chystal â chysylltu â Siarad Iechyd/Talking Health gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod. Yn ychwanegol, pe byddai eich sefydliad yn dymuno gallwn drefnu dod i un o'ch cyfarfodydd i roi cyflwyniad ar y cynllun, os felly a fyddoch chystal â chysylltu er mwyn trefnu dyddiad ac amser cyfleus ar gyfer hyn.

Pencadlys Bwrdd Iechyd Hywel Dda
Llys Myrddin, Lôn Winch, Hwlfordd,
Sir Benfro, SA61 1SB
Rhif Ffôn: (01437) 771220
Rhif Ffacs: (01437) 771222

Hywel Dda Health Board Headquarters
Merlins Court, Winch Lane, Haverfordwest,
Pembrokeshire, SA61 1SB
Tel Nr: (01437) 771220
Fax Nr: (01437) 771222

Cadeirydd/Chairman
Mr Chris Martin
Prif Weithredwr/Chief Executive
Mr Trevor Purt

Bydd pawb sy'n ymuno â Siarad Iechyd/Talking Health cyn y 1^{af} o Fedi 2011 yn cael cyfle i ennill gwyliau ym Mharc Cenedlaethol Bluestone.

Am fwy o wybodaeth ac i lawr lwytho ffurflen gais ewch i wefan Siarad Iechyd/Talking Health:

www.siaradiechyd.wales.nhs.uk / www.talkinghealth.wales.nhs.uk

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni:

Ffoniwch: 01554 779 510

E-bostiwch: siaradiechyd@wales.nhs.uk / talkinghealth@wales.nhs.uk

Ysgrifennwch atom: FREEPOST HYWEL DDA HEALTH BOARD

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Chris Wright', written in a cursive style.

Chris Wright
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol